Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.12 Gwirfoddolwyr a budd-daliadau lles

Mae rheolau hawlio budd-daliadau wrth wirfoddoli yn weddol syml.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn olwg cyffredinol ynghyd â'r cyngor yma:

- Datblygwch berthynas dda gydag ymgynghorwyr budd-dal lleol, fel eu bod yn deall natur eich gwaith.
- Codwch fater budd-daliadau gyda gwirfoddolwyr newydd a chyfredol.
- Anogwch wirfoddolwyr i godi'r mater gyda'u hymgynghorwr budd-dal lleol.
- Byddwch yn ymwybodol o effeithiau posib taliadau treuliau ar fudd-daliadau.
- Mynnwch gyngor pellach oddi wrth eich canolfan gwirfoddoli lleol neu'r ymgynghorydd budd-dal.

Diffiniad gwaith gwirfoddol

Mae pob dyfarniad budd-dal yn cytuno mai gwaith ar gyfer mudiad dielw yw gwaith gwirfoddol, neu waith i rywun nad sy'n aelod o'r teulu, lle telir treuliau rhesymol yn unig.

Lwfans Ceiswyr Gwaith (JSA)

Er mwyn derbyn y budd-dal yma, rhaid i wirfoddolwyr fod ar gael i weithio ac wrthi'n chwilio am waith.

Nid oes cyfyngderau ar yr oriau y gall person wirfoddoli cyn belled â:

- Bod nhw'n dal i chwilio am waith fel y cytunwyd gyda'u hymgynghorydd cyflogaeth.
- Gellir cysylltu â hwy yn gyflyn os ddaw cyfle am swydd, a gallant fynd am gyfweliad o fewn 48 awr a derbyn cynnig gwaith o fewn un wythnos.
- Nid yw'r gwirfoddolwr yn derbyn tâl am unrhyw beth ar wahân i fân dreuliau megis costau teithio neu ddillad arbennig ar gyfer gwaith gwirfoddol.

Rhaid i wirfoddolwyr ddweud wrth yr ymgynghorydd cyflogaeth os ydynt yn gwneud gwaith gwirfoddol. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw daliadau e.e. honoraria neu daliadau mewn nwyddau megis tocynnau bwyd. Gall fod yn ddefnyddiol i wirfoddolwyr gael llythyr oddi wrth eu mudiad gwirfoddol yn amlinellu'r treuliau neu daliadau eraill a dderbynnir, y math o waith a wneir a ffordd o gysylltu â nhw wrth wirfoddoli gyda'r mudiad. Mae llythyr model yn amgaeedig.

Cymhorthdal incwm

Ni ddylai gwirfoddoli effeithio ar Gymhorthdal Incwm cyn belled â nad ydynt yn derbyn unrhyw arian heblaw taliadau treuliau.

Budd-dal anallu ogrwydd

Gall pobl sy'n derbyn Budd-dal Anallu ogrwydd weithio'n wirfoddol cyn belled nad ydynt yn derbyn tâl heblaw am dreuliau. Mae rhai pobl yn poeni y bydd dechrau gwirfoddoli yn sbarduno ymchwiliad i'w angen am Fudd-dal Anallu ogrwydd, ond mewn gwirionedd, anaml y digwydd hyn. Weithiau, mae yna ddryswch ynglŷn â gwirfoddoli a 'gwaith a ganiateir' (tebyg i'r 'enillion therapiwtig' gynt). Mae rheol gwaith a ganiateir yn gymhwysol i waith a thâl yn unig ac ni ddylid effeithio ar wirfoddolwyr. Dylai hawlwyr fedru gwirfoddoli heb i'r gwaith gael ei gydnabod fel gwaith a ganiateir.

Dylai gwirfoddolwyr roi gwybod i'w ymgynghorwyr budd-dal os ydynt yn gwneud unrhyw waith gwirfoddol, a hefyd roi gwybod iddynt os dderbynnir taliadau wrth wirfoddoli.

Lwfans byw i'r anabl (DLA)

Mae hwn yn lwfans a delir fel cydnabyddiaeth y byddai bywyd ar gyfer person anabl yn fwy drud - er enghraifft, byddai rhywun gyda phroblemau symudedd yn ddibynnol ar ddefnyddio tacsi. Ni ddylai gwirfoddoli effeithio ar y lwfans yma.

Problemau

Os ydych o'r farn fod achos gwirfoddolwyr heb dderbyn triniaeth deg neu fod yn cael problemau gyda budd-daliadau, cysylltwch â'ch canolfan gwirfoddoli lleol neu Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329.

Treuliau a budd-daliadau gwirfoddolwyr

Mae'n arfer da cydnabyddedig i gynnig digolledu gwirfoddolwyr am fân dreuliau. Os yw rheolwyr a gwirfoddolwyr yn dilyn y canllawiau isod, ni ddylai taliadau treuliau effeithio ar hawliau budd-dal neu oblygiadau cyfreithiol neu dreth eraill.

Yn y DU, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) ac Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn cydnabod yn gyfreithiol y mathau yma o dreuliau:

- teithio i ac yn ôl o leoliad y gweithgaredd gwirfoddoli
- teithio yn ystod gwirfoddoli
- prydau bwyd yn ystod gwirfoddoli
- costau postio a galwadau ffôn
- gofal dibynyddion yn ystod y cyfnod gwirfoddoli
- cost dillad arbenigol

Mae'r HMRC a'r DWP yn hapus cyn belled â bod y treuliau a delir i wirfoddolwyr yn gostau gwir ac ar gyfradd 'rhesymol' e.e. cyfraddau milltiredd o fewn cyfyngderau HMRC.

Dyma **gyfraddau milltiredd cymeradwy** HMRC ar gyfer 2011 - 2012:

Ceir a faniau	45c y filltir am y 10,000 milltir gyntaf, 25c y filltir dros 10,000
Beiciau Modur	24c y filltir
Beiciau	20c y filltir

Er mwyn digolledu'r gwir gostau gwirfoddolwyr yn ystod gwirfoddoli, rhaid i'r mudiad gael prawf o'r costau. Gall hwn fod yn dderbynebau ar gyfer pwrcasau neu daliad am wasanaeth, tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus neu gofnod milltiredd. Cyfrifoldeb y gwirfoddolwr yw darparu gwybodaeth gywir i'r mudiad wrth hawlio treuliau. Mae gwneud cais anonest yn annerbyniol a gall arwain at gais i'r gwirfoddolwr adael y mudiad yn ogystal â chyhuddiadau cyfreithiol am dwyll (mae angen i'r mudiad gael polisi ar hyn, sy'n amlinelli'r hyn fyddai'n digwydd pe bai'r gwirfoddolwr yn cael ei ddal yn gwneud ceisiadau anonest am dreuliau).

Ni ddylid byth roi un taliad mawr i wirfoddolwyr i dalu eu treuliau. Nid yn unig y byddai hyn yn peryglu'r budd-daliadau y maent yn eu derbyn, ond byddai hefyd oblygiadau cyfreithiol a threthiannol i'r gwirfoddolwr ac i'r mudiad. Sicrhewch fod gennych drefniadau a pholisïau ar gyfer treuliau a bod pawn yn ymwybodol ohonynt fel y gallwch bwysleisio'r egwyddor 'dim prawf, dim taliad'. Os yw gwirfoddolwyr yn cael anhawster i gadw cofnodion neu lenwi ffurflenni, dylech gynnig cymorth iddynt.

Mae Gwelliant Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Gwirfoddolwyr) 2001 yn golygu ei bod hi'n bosib talu treuliau ymlaen llaw.
Er enghraifft, os yw costau teithio'r gwirfoddolwr yn ôl a blaen i'r man gwaith yn £20 y mis mewn teithiau bws, mae bellach yn bosibl i dalu £20 i'r gwirfoddolwr ar ddechrau'r mis fel nad ydynt ar eu colled trwy orfod aros tan ddiwedd y mis i hawlio'r costau. Nid yw'r rheolau newydd yn newid y ffaith mai dim ond costau cyfreithiol sydd wedi codi neu a fydd yn codi y gellir eu digolledu heb effeithio ar fudd-daliadau'r gwirfoddolwr. Felly, os oes unrhyw daliadau wedi eu gwneud i'r gwirfoddolwr sy'n fwy na'r hyn a wariwyd, neu sydd i gael ei wario gan y gwirfoddolwr, bydd y swm hwnnw yn parhau i gael ei ystyried fel enillion a bydd yn effeithio ar fudd-daliadau'r gwirfoddolwr. Bydd angen yr un math o brawf, derbynebau er enghraifft, i ddangos sut y gwariwyd yr arian.

Mae Swyddfa Budd-daliadau'r gwirfoddolwr yn debygol o ofyn am dystiolaeth o swm a natur y treuliau sy'n mynd i godi ble bydd taliad yn cael ei wneud ymlaen llaw. Mae felly'n syniad da i fudiadau sy'n gwneud taliadau ymlaen llaw sicrhau bod ganddynt system ar gyfer darparu'r wybodaeth honno fel bod modd i'r gwirfoddolwr ei throsglwyddo.

Patrwm llythyr canolfan waith

Rhif Y.C. _____

Enw _____

Cyfeiriad_____

_____

Dyddiad fel marc post

Annwyl Syr / Madam

Cyf: Hysbysiad dechrau gwirfoddoli

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu y dymunaf ddechrau gwirfoddoli ar _____ gyda _____ sef mudiad elusennol / dielw.

Cyfeiriad y lleoliad gwirfoddoli ble byddaf yn gweithio yw_____ _____a'r trefnydd gwirfoddoli a fydd yn fy arolygu yw _____

Y cyfle gwirfoddoli y byddaf yn ei wneud yw _____ _____ a'r dyletswyddau fydd _____ _____ _____

Oriau'r gwirfoddoli'r wythnos fydd _____ a byddaf / ni fyddaf yn cael fy nhalu ar wahân i fân dreuliau wrth wirfoddoli.

Ni fydd y dyletswyddau gwirfoddoli a wnaf yn cael eu gwneud gan aelod cyflogedig o'r mudiad os byddaf yn methu gwneud, ac nid wyf yn gwirfoddoli yn lle gwaith cyflogedig.

Arwyddwyd_____ Dyddiad_____

Gwybodaeth bellach

Adran Gwaith a Phensiynau
Ffôn: 020 7712 2171
www.dwp.gov.uk

Job Centre Plus
Taflen "*Hawlio budd-daliadau wrth wirfoddoli*"
www.jobcentreplus.gov.uk

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
www.hmrc.gov.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF
Elusen Gofrestredig *1054322*

Ffôn: 01824 702441 office@dvsc.co.uk
Ffacs: 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:14/04/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk